
# Teithio gan Ddysgwyr:

# Y Gyfraith ar Deithio i'r Ysgol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Dyma ddogfen **hawdd i'w ddarllen** gan Lywodraeth Cymru



Tachwedd 2014

# Canllawiau ar gyfer Teithio gan Ddysgwyr

## Fersiwn hawdd i'w ddarllen

Ni yw Llywodraeth Cymru ac aethom ati ym mis Mehefin 2014 i wneud y wybodaeth am deithio gan ddysgwyr yn fwy clir.

Mae'r ddogfen hon yn sôn am ddarparu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol ac mae'n rhoi canllawiau i ysgolion ac awdurdodau lleol ac yn dweud hefyd sut gallwn ni wneud teithio i'r ysgol yn fwy diogel.

Mae gwybodaeth yma hefyd ar gyfer rhieni a phlant.

Mae'r ddogfen hon yn sôn hefyd am ymddygiad da pan fydd dysgwyr yn teithio rhwng y cartref a'r ysgol a'r enw ar hynny yw'r Cod Teithio.

# Cynnwys

## Beth sydd yn y llyfryn hwn?


| | |
|---|---|
| Pennod 1 – Beth mae'r ddogfen hon amdano | 3 |
| Pennod 2 – Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan | 11 |
| Pennod 3 – Cyhoeddi Gwybodaeth am Drafnidiaeth i'r Ysgol: Polisïau a Gwybodaeth ar gyfer Rhieni | 16 |
| Pennod 4 – Diogelwch ar Drafnidiaeth ar gyfer Dysgwyr | 19 |
| Pennod 5 – Asesiad Risg Llwybrau Cerdded i'r Ysgol | 22 |
| Pennod 6 – Cyfrifoldebau Rhieni | 27 |
| Pennod 7 – Cyfrifoldebau Ysgolion | 31 |

# Pennod 1

## Am beth mae'r ddogfen hon yn sôn?

Am y Mesur Teithio gan Ddysgwyr 2008, sy'n nodi'r gyfraith ar deithio gan Ddysgwyr a chludiant ar eu cyfer.

### Dyletswyddau Cyfreithiol Gweinidogion Cymru

Rhaid i Weinidogion Cymru:

- Baratoi Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan.
- Ceisio gwneud yn siŵr bod Addysg Gymraeg ar gael i ddisgyblion sydd am gael addysg o'r fath.
- Annog pobl i deithio mewn ffyrdd **cynaliadwy**.




Mae **cynaliadwy'n** golygu ffyrdd o deithio sy'n garedig i'r amgylchedd fel cerdded neu feicio neu fynd ar y bws.

## Dyletswyddau Cyfreithiol yr Awdurdod Lleol

Rhaid i Awdurdodau Lleol:

- Wneud yn siŵr eu bod yn gwybod beth yw anghenion teithio pob dysgwr.



- Rhoi cludiant i ddysgwyr ifanc sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf.
- Rhoi cludiant i ddysgwyr hŷn sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf.
- Gofalu am anghenion plant sy'n byw mewn gofal.
- Gwneud pobl yn fwy ymwybodol am ysgolion Cymraeg.
- Gwneud pobl yn fwy ymwybodol am ffyrdd **cynaliadwy** o deithio.




Mae **cynaliadwy'n** golygu ffyrdd o deithio sy'n garedig i'r amgylchedd fel cerdded neu feicio neu fynd ar y bws.

## Dyletswyddau Eraill yr Awdurdod Lleol

- Mae peth cludiant am ddim yn cael ei roi **yn ôl disgresiwn** eich awdurdod lleol.

Ystyr cludiant **yn ôl disgresiwn** yw pwy mae'r awdurdodau lleol yn dewis rhoi cludiant iddyn nhw. Os dydych chi ddim yn byw yn ddigon pell o'r ysgol, maen nhw'n gallu dewis rhoi cludiant ichi ond does dim rhaid iddyn nhw wneud hynny dan y gyfraith.





## Dyletswyddau Cyfreithiol Penaethiaid

- Rhaid i Benaethiaid wneud yn siŵr eich bod yn gwybod am y Cod Teithio.

- Rhaid i Benaethiaid wneud yn siŵr eich bod yn dilyn y Cod Teithio.

## Asesu Anghenion



Mae **Asesu Anghenion** yn golygu'r wybodaeth y mae'r awdurdodau lleol yn ei defnyddio i benderfynu sut i wneud yn siŵr y byddwch chi'n cyrraedd yr ysgol yn ddiogel.



## Rhaid i'r awdurdodau lleol feddwl am y pethau hyn

- Beth yw'ch anghenion teithio.
- Pa ysgol rydych chi'n mynd iddi.
- Beth yw'r ddyletswydd gyfreithiol sydd arnyn nhw ichi.
- Allan nhw roi cludiant am ddim ichi.
- Oes trefniadau cludiant am ddim ar eich cyfer yn barod.

## Rhaid i'r awdurdod lleol wybod y pethau hyn hefyd

- Ydych chi'n ddysgwr anabl.
- Ydych chi'n byw mewn **cartref preswyl**.




Ystyr **Cartref preswyl** yw lle diogel ichi fyw ynddo, fel cartref gofal neu gartref maeth os dydy hi ddim yn bosibl ichi fyw gyda'ch rhieni neu'ch teulu.

- Eich oedran.
- Ydy'ch llwybr i'r ysgol yn un diogel.
- Ydy'r teithio'n achosi gofid ichi.
- Ydy'r daith yn cymryd gormod o amser.

Mae angen i'r awdurod lleol wybod sut orau i fynd â chi i'r ysgol

- Ond dyw hynny ddim yn cynnwys tripiau ysgol.
- Ac mae'n rhaid iddo wneud hyn bob blwyddyn.

## Rhaid i'r awdurdod lleol wneud trefniadau cludiant ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol



- Os ydych chi'n mynd i ysgol anghenion arbennig, rydych chi'n gallu cael cludiant am ddim i'r ysgol.
- Rydych chi'n gallu cael cludiant am ddim os ydych chi'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol gynradd addas agosaf.
- Rydych chi'n gallu cael cludiant am ddim os ydych chi'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol uwchradd addas agosaf.

## Beth mae'r ysgol addas agosaf yn ei feddwl?



Mae'n golygu eich bod yn mynd i'r ysgol orau ar gyfer eich anghenion chi.

- Gallwch chi ddewis yr ysgol orau i chi.
- Efallai y byddwch chi am fynd i ysgol sydd yr un ffydd â chi.
- Efallai y byddwch chi am fynd i ysgol lle maen nhw'n siarad Cymraeg.

Ond mae'n bosibl mai dim ond os yr ysgol honno yw'r un agosaf a'r orau ichi fel dysgwr y byddwch chi'n cael cludiant am ddim.



## Beth yw ystyr Plant sy'n Derbyn Gofal?

Mae **plant sy'n derbyn gofal** yn golygu unrhyw blentyn neu oedolyn ifanc sy'n byw dan ofal yr awdurdod lleol, mewn cartref gofal er enghraifft.



## Beth mae Byw mewn Dau Le yn ei feddwl?

Dysgwyr sydd â rhieni neu ofalwyr sydd ddim yn byw gyda'i gilydd ond mewn cartrefi gwahanol.

## Cludiant ar gyfer dysgwyr dros 16 oed

Does dim rhaid i'r awdurdodau lleol roi cludiant am ddim ichi.

Ac os ydych chi'n ddysgwr anabl sydd dros 16 oed, does dim rhaid i'r awdurdodau lleol roi cludiant am ddim ichi ychwaith.

## Plant Meithrin


Os ydych chi dan 5 oed, does dim rhaid i'r awdurdod lleol roi cludiant am ddim ichi.

## Addysg Gymraeg neu Saesneg

Mae rhai'n mynd i ysgolion lle maen nhw'n siarad Cymraeg.

Mae rhai'n mynd i ysgolion lle maen nhw'n siarad Saesneg.

Ond mae'r rheolau ar gyfer cludiant am ddim yr un peth ar gyfer y ddau.



## Anghenion Addysgol Arbennig


Os oes anabledd arnoch, mae'n bosibl y byddwch chi'n cael cludiant am ddim i'r ysgol.

Mae'n bosibl mai'r rheswm dros roi cludiant am ddim ichi yw oherwydd bod yr ysgol orau ar gyfer eich anghenion chi yn bellach o le rydych chi'n byw.

**Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn y fersiwn lawn o'r ddogfen hon.**

# Pennod 2

## Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan



**Mae'r Cod Teithio'n nodi'r hyn y mae'n rhaid ichi ei wneud wrth deithio.**

Pwrpas y Cod Teithio yw annog teithio diogel.

Mae'r rheolau hyn ar gyfer pob rhan o Gymru.

Mae 2 ran i'r Cod Teithio.

1. Mae'r Cod Teithio'n nodi sut mae'n rhaid ichi ymddwyn wrth deithio ar fws neu drên neu wrth gerdded.

2. Mae'r Cod Teithio'n nodi sut i ymddwyn ar fws ysgol.

Rydyn ni am i bob

- Cyngor
- Rhiant
- Ysgol
- Dysgwr
- Cwmni trenau a phob cwmni bysiau

wybod y rheolau hyn. A'u defnyddio nhw.



## Gwneud yn siŵr bod pobl yn cadw at y Cod Teithio – Sancsiynau

Cosbau sy'n cael eu rhoi ichi gan yr awdurdod lleol os dydych chi ddim yn ymddwyn fel y dylech chi yw **sancsiynau**.


Os byddwch chi'n camymddwyn, bydd yr awdurdod lleol yn gallu'ch atal rhag defnyddio'r cludiant.

Mae yna set o reolau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu dilyn cyn iddo'ch atal rhag defnyddio'r cludiant.

A rhaid iddo fod yn siŵr bod y dysgwr wedi torri'r rheolau ar gyfer teithio diogel.

Mae'r tabl yn dangos y Rheolau y mae'n rhaid ichi eu dilyn a'ch Hawliau wrth deithio.

| Eich Cyfrifoldeb | Eich Diogelwch | Eich Hawliau |
|---|---|---|
| Dylech barchu pobl eraill bob amser, gan gynnwys dysgwyr, gyrwyr a'r cyhoedd. | Dylech ymddwyn yn dda bob amser wrth deithio. | Bod yn ddiogel wrth deithio. |
| Dylech barchu cerbydau ac eiddo bob amser. | Dylech ddilyn cyfarwyddiadau'r gyrrwr bob amser wrth deithio. | Cael eich trin yn deg a gyda pharch. |
| Dylech fod yn gwrtais bob amser. | Dylech groesi'r ffordd yn ddiogel ac yn gyfrifol bob amser. | Dweud wrth rywun os oes unrhyw un yn achosi problemau ichi. |
| Dylech byth ollwng sbwriel. | Dylech deithio ar hyd ffordd ddiogel bob amser. | Peidio â chael eich bwlio neu gael pobl yn pigo arnoch chi. |
| Dylech gadw at y gyfraith bob amser. | | |



Cyn ichi gael eich atal rhag defnyddio'r cludiant

- Gallwch chi a'ch rhieni ddweud beth ddigwyddodd o'ch ochr chi.
- Gallwch chi siarad â'ch pennaeth.
- Rhaid bod rheswm da dros atal eich cludiant.

Rhaid i'r awdurdod lleol wneud yn siŵr ei bod hi'n deg i atal eich trafnidiaeth.


Os yw'ch cludiant yn cael ei atal, rhaid i'r awdurdod lleol wneud yn siŵr ei fod yn gwybod am eich anghenion:

- os ydych chi o oedran ysgol
- os ydych chi'n ddysgwr ag anghenion arbennig
- os ydych chi'n ddysgwr ag anableddau
- os yw hynny'n eich atal rhag sefyll arholiad pwysig
- os ydych chi'n dal i fedru cyrraedd yr ysgol.

Rhaid i'ch rhieni gael diwrnod o rybudd os ydych chi'n cael eich atal rhag defnyddio'r cludiant.



- Allwch chi ddim cael eich atal rhag defnyddio'r cludiant am fwy na 10 diwrnod ar ôl ei gilydd.
- Nac am fwy na 30 diwrnod mewn un flwyddyn ysgol.
- Mae Gweinidogion Cymru yn cael newid y rheolau.
- Byddan nhw'n gofyn eich barn chi cyn newid y rheolau.



## Codi Ymwybyddiaeth


- Mae gan Gynghorau Ysgol ran fawr i'w chwarae mewn pethau fel bwlio.
- Gall Cynghorau Ysgol wneud rhywbeth i'w atal.

Mae rheolau'r Cenhedloedd Unedig yn dweud y dylai oedolion ystyried barn plant pan fyddan nhw'n gwneud penderfyniadau am blant.

**Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn y fersiwn lawn o'r ddogfen hon.**

# Pennod 3

## Cyhoeddi Polisïau am Gludiant i'r Ysgol a Gwybodaeth i Rieni




- Mae'r bennod hon yn nodi pa wybodaeth y mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol ei rhoi ichi.
- Pryd mae'n rhaid iddyn nhw ei rhoi ichi.
- A sut dylen nhw roi'r wybodaeth hon ichi neu i'ch rhieni a'ch athrawon.
- A sut gallan nhw drefnu bod yr wybodaeth honno ar gael ichi neu i'ch rheini a'ch athrawon.

Nid yw'r rheolau hyn yn cynnwys


- Dysgwyr yn teithio yn ystod y dydd i fynd i ysgolion eraill.
- Tripiau ysgol.

Yn ogystal â'r Cod Ymddygiad wrth Deithio, rhaid i'r awdurdodau lleol hefyd gyhoeddi'r wybodaeth isod

- **Polisi** cyffredinol ar roi cludiant am ddim.

Ystyr **polisi** yw'r hyn mae Llywodraeth Cymru am i'r awdurdodau lleol ei wneud ar eich cyfer.

- Polisi ar bryd dydyn nhw ddim yn rhoi cludiant am ddim.
- Taliadau am gludiant.
- Sut i wneud cwyn.




- Cludiant os oes gennych anawsterau dysgu.
- Trefniadau teithio sy'n cael eu gwneud gan gyrff eraill.
- Rhaid i'r wybodaeth fod ar gael cyn i'r flwyddyn ysgol nesaf ddechrau.
- Rhaid i'r wybodaeth fod ar gael am ddim i'ch rhieni os ydych nhw'n gofyn amdani.


Rhaid i'r wybodaeth fod ar gael ar wefannau'r awdurdodau lleol.

- Rhaid i'r wybodaeth fod ar gael yn rhad ac am ddim i'ch rhieni.
- Rhaid i'r wybodaeth fod ar gael yn eich ysgol.
- Rhaid i'r wybodaeth fod ar gael yn yr holl leoedd y gallech chi fod am ddysgu ynddyn nhw.
- Rhaid i'r wybodaeth fod ar gael i rieni disgyblion sy'n newid ysgolion.

**Rhaid i'r awdurdodau lleol ddarparu'r wybodaeth isod am ddim:**

- Y trefniadau teithio sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn cyrraedd yr ysgol.

- Trefniadau teithio gan ddefnyddio'u pwerau **yn ôl disgresiwn**.



Ystyr cludiant **yn ôl disgresiwn** yw pwy mae'r awdurdodau lleol yn dewis rhoi cludiant iddyn nhw. Os dydych chi ddim yn byw yn ddigon pell o'r ysgol, maen nhw'n gallu dewis rhoi cludiant ichi ond does dim rhaid iddyn nhw wneud hynny dan y gyfraith.


- Rhaid bod rhieni'n gallu deall y dewisiadau y maen nhw'n eu gwneud ar eich cyfer, a chostau'r dewisiadau hynny.

**Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn y fersiwn lawn o'r ddogfen hon.**

# Pennod 4


## Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr

- Mae angen i bob Cludiant i Ddysgwyr fod yn ddiogel.
- Y rheswm dros y rheolau yw gwneud yn siŵr bod yr holl gludiant i ddysgwyr yn ddiogel ichi ei ddefnyddio.
- Mae'r rheolau'n gwneud eich taith i'r ysgol yn un fwy diogel.



### Darparu Gwregysau Diogelwch

- Mae'r rheolau'n dweud bod yn rhaid gosod gwregysau diogelwch ar bob bws ysgol erbyn 1 Hydref 2014.
- Os byddwch chi'n teithio ar fws cyffredin, efallai fydd ddim gwregysau diogelwch arno.



## Gwisgo Gwregysau Diogelwch

- Os ydych chi'n 14 oed neu'n hŷn, rhaid ichi wisgo gwregys diogelwch os oes un ar gael.
- Os ydych chi dan 14 oed, rhaid i'r gyrrwr ddweud wrthych i wisgo gwregys diogelwch.
- Os oes cyflwr meddygol arnoch chi, efallai fydd ddim rhaid ichi wisgo gwregys diogelwch.
- Ond bydd rhaid ichi brofi hynny.
- Bydd rhaid ichi gael nodyn gan feddyg i ddweud hynny.

## Gwisgo Gwregysau Diogelwch

### Sancsiynau Troseddol

Ystyr **Sancsiynau Troseddol** yw cosbau y gall yr heddlu eu rhoi os byddwch chi'n torri'r gyfraith.



- Mae'r heddlu'n gwneud yn siŵr bod gwregysau diogelwch ar eich bws ysgol.
- Mae'r heddlu'n cael dod i mewn i'r bws i weld bod gwregysau diogelwch arnyn nhw.
- Mae hynny'n golygu eu bod nhw'n gallu stopio bws os ydyn nhw'n meddwl bod y bws hwnnw ddim yn ddiogel i deithio arno.


Os does dim gwregysau diogelwch ar eich bws ysgol, mae'n bosibl y bydd yr heddlu'n cymryd camau yn erbyn:

- yr awdurdod lleol
- corff llywodraethu'r ysgol
- y cwmni bysiau
- person unigol – os y person hwnnw sy'n gyfrifol am dorri'r gyfraith.

**Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn y fersiwn lawn o'r ddogfen hon.**

# Pennod 5


## Asesiadau Risg o Lwybrau Cerdded i'r Ysgol




### Y Drefn Asesu Risg

Mae'r adran hon yn sôn am y risgiau i ddysgwyr sy'n cerdded i'r ysgol.


Rhaid i'r awdurdodau lleol ystyried:



- cyflwr y llwybr
- ydych chi'n gallu croesi'r ffordd yn ddiogel
- traffig
- hanes o ddamweiniau
- llwybrau troed
- mannau croesi



- camlesi, afonydd a ffosydd
- y goleuadau mewn ardal
- croesfannau rheilffyrdd.




## Peryglon Cymdeithasol

Mae **Peryglon Cymdeithasol** yn gallu bod yn beryglon sy'n cael ei hachosi gan bobl ddieithr, bwlis, mygwyr, lladron, llofruddwyr neu herwgipwyr. Unrhyw le neu bobl sy'n gwneud ichi deimlo eich bod chi ddim yn ddiogel.

- Bydd eich awdurdod lleol yn edrych ar unrhyw lwybrau y mae'n meddwl y gallen nhw fod yn beryglus.

- Rydyn ni am i sefydliadau gwahanol weithio gydai'i gilydd i daclo peryglon cymdeithasol.

- Bydd rhieni, athrawon ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd os bydd dysgwyr yn gofidio am beryglon.



## Gofyn Barn Plant

- Plant sy'n defnyddio'r llwybrau cerdded i'r ysgol.

- Felly dyle gofyn i blant os ydyn nhw'n teimlo'n ddiogel wrth gerdded i'r ysgol.

- Mae'r awdurdod lleol yn gallu defnyddio ffyrdd gwahanol i ofyn barn plant.

- Gallwch chi gysylltu â'ch awdurdod lleol a dweud eich barn.





## Helpu i Wneud yn Siŵr bod Plant yn Ddiogel ar y Ffordd rhwng y Cartref a'r Ysgol

- Mae sawl ffordd i'r awdurdodau lleol helpu.

- Trefnu bod pobl lolipop ar gael.

- Annog plant i gerdded gydag oedolion neu ffrindiau.



- Trefnu hyfforddiant Kerbcraft – dysgu plant sut i groesi'r ffordd yn ddiogel.

- Rhoi gwersi neu drefnu cyfarfodydd yn yr ysgol i sôn am sut i ymddwyn yn ddiogel.



# Rolau a Chyfrifoldebau

## Cyfrifoldebau Rhieni:


- Eich rhieni ddylai benderfynu pa oedran y dylech chi fod cyn ichi gael cerdded i'r ysgol ar eich pen eich hun.

- Mae angen i'ch rhieni wneud yn siŵr eich bod yn cyrraedd yr ysgol.

- Mae angen i'ch rhieni wneud yn siŵr hefyd eich bod yn cyrraedd adref o'r ysgol.

- Dylai'ch rhieni wneud yn siŵr eich bod yn gwybod am y Cod Teithio.


- Mae'r Cod Teithio'n dweud wrthych sut i ymddwyn yn dda wrth deithio rhwng y cartref a'r ysgol.




## Penaethiaid

Mae cyfrifoldeb ar benaethiaid i wneud y pethau hyn:

- Dysgu plant i ddefnyddio'r Cod Teithio.
- Gwneud yn siŵr bod safonau ymddygiad yn dderbyniol.
- Gwneud y Cod Teithio yn rhan o bolisi Ymddygiad yr ysgol.
- Rhaid i benaethiaid hefyd wneud yn siŵr eich bod yn dilyn y rheolau iechyd a diogelwch.




## Cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch

- Mae rheolau iechyd a diogelwch yn helpu i atal damweiniau.
- Mae angen y rheolau hyn er mwyn eich helpu.

**Mae rhagor o wybodaeth yn y fersiwn lawn o'r ddogfen hon.**

# Pennod 6

## Cyfrifoldebau Rhieni





### Dysgwyr sy’n Cael Cludiant am Ddim

- Mae’ch plentyn yn gallu mynd i ysgol anghenion arbennig ac mae’n bosibl y bydd yn cael cludiant am ddim i’r ysgol.

- Mae’ch plentyn yn gallu cael cludiant am ddim i’r ysgol os ydych chi’n byw 2 filltir neu fwy o’r ysgol gynradd addas agosaf.

- Mae’ch plentyn yn gallu cael cludiant am ddim i’r ysgol os ydych chi’n byw 3 milltir neu fwy o’r ysgol uwchradd addas agosaf.

## Yr Ysgol Addas Agosaf

**Beth mae'r ysgol addas agosaf yn ei feddwl?**




**Mae'n golygu eich bod yn mynd i'r ysgol orau ar gyfer eich anghenion chi ac sydd agosaf i'ch cartref.**

- Gallwch chi ddewis yr ysgol orau i chi.
- Efallai y byddwch chi am fynd i ysgol sydd yr un ffydd â chi.
- Efallai y byddwch chi am fynd i ysgol lle maen nhw'n siarad Cymraeg.

Ond mae'n bosibl mai dim ond os yr ysgol honno yw'r un agosaf a'r orau ichi fel dysgwr y byddwch chi'n cael cludiant am ddim.

## Rhoi Dewis i Rieni



- Mae rhai’n mynd i ysgolion lle maen nhw’n siarad Cymraeg.
- Mae rhai’n mynd i ysgolion lle maen nhw’n siarad Saesneg.
- Ond mae’r rheolau ar gyfer cludiant am ddim yr un peth ar gyfer y ddau.

## Y Cod Ymddygiad wrth Deithio

- Mae’r Cod Teithio yn dweud pa gyfrifoldebau sydd ar eich plentyn wrth iddo deithio.
- Mae’r Cod Teithio yn dweud pa hawliau sydd gan eich plentyn wrth iddo deithio.
- Mae’r Cod Teithio’n dweud beth ddylai’ch plentyn ei wneud wrth iddo deithio.
- Mae’r rheolau hyn ar gyfer pob rhan o Gymru.



## Byw mewn Dau Le

### Beth mae Byw mewn Dau Le yn ei feddwl?

**Preswyliad deuol** yn golygu i ddysgwyr sydd â rhieni neu ofalwyr sydd ddim yn byw gyda'i gilydd ond mewn cartrefi gwahanol.

Rhaid i'ch awdurdod lleol edrych o hyd i weld a allwch chi gael cludiant am ddim i'r ysgol.

## Plant sy'n cael eu Hebrwng

### Beth mae hebrwng yn ei feddwl?

Mae **hebrwng** yn golygu bod rhywun yn mynd â phlentyn i'r ysgol. Un o'r rhieni sy'n gwneud hynny fel arfer ond gallai hefyd olygu rhywun sy'n cael ei ddewis gan yr awdurdod.




- Rhaid i rieni sicrhau bod eu plant yn cael addysg o 5 oed ymlaen.
- Rhaid iddyn nhw benderfynu oes angen hebrwng y plentyn i'r ysgol.
- Does dim rhaid i'r awdurdodau lleol drefnu bod rhywun yn hebrwng y plentyn oni bai bod y plentyn hwnnw wedi cael nodyn gan feddyg.

**Mae rhagor o wybodaeth yn y fersiwn lawn o'r ddogfen hon.**


# Pennod 7

## Cyfrifoldebau Ysgolion



Rhaid i'ch ysgol:


- Wneud yn siŵr bod pob dysgwr yn gwybod am y Cod Teithio.
- Rhoi hyfforddiant i athrawon am y Cod Teithio.
- Dylai'ch ysgol ddweud wrthych wrth bwy y gallwch chi sôn am ymddygiad gwael.
- Dylai gadw cofnodion am ymddygiad gwael.
- Dylai anfon y cofnodion hynny ymlaen yn gyflym i bobl a fydd yn delio â'r ymddygiad gwael.
- Dylai'ch ysgol wybod am y Cod Teithio ac am sut i ddelio ag ymddygiad gwael.



## Cyfrifoldebau Ysgolion

Dylai pob pennaeth wneud yn siŵr bod ei ddisgyblion yn dilyn y Cod

- mae awdurdodau lleol yn gallu rhoi cyngor i rieni am gludiant i'r ysgol.



## Gwregysau Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr

- O 1 Hydref 2014, bydd yn rhaid i wregysau diogelwch gael eu gosod ar fysiau ysgol **penodedig**.

Mae **Penodedig** yn golygu cludiant sydd ddim ond yn cael ei ddefnyddio i fynd â dysgwyr yn ôl ac ymlaen i'r ysgol.

**Mae rhagor o wybodaeth yn y fersiwn lawn o'r ddogfen hon.**

# Termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

Mae rhai o'r termau rydyn ni wedi'u defnyddio yn y dogfen hon wedi cael eu lliwio'n **las.**

Rydyn ni wedi gwneud hynny er mwyn eich helpu i ddeall beth maen nhw'n ei feddwl.

Ystyr **cynaliadwy** yw ffyrdd o deithio sy'n garedig i'r amgylchedd fel cerdded neu feicio neu fynd ar y bws.

Ystyr **cludiant yn ôl disgresiwn** yw pwy mae'r awdurdodau lleol yn dewis rhoi cludiant iddyn nhw. Os dydych chi ddim yn byw yn ddigon pell o'r ysgol, maen nhw'n gallu dewis rhoi cludiant ichi ond does dim rhaid iddyn nhw wneud hynny dan y gyfraith.

Ystyr **Asesu Anghenion** yw'r wybodaeth y mae'r awdurdodau lleol yn ei defnyddio i benderfynu sut i wneud yn siŵr y byddwch chi'n cyrraedd yr ysgol yn ddiogel.

Ystyr **cartref preswyl** yw lle diogel ichi fyw ynddo, fel cartref gofal neu gartref maeth os dydy hi ddim yn bosibl ichi fyw gyda'ch rhieni neu'ch teulu.

Ystyr yr **ysgol addas agosaf** yw'r ysgol orau ar gyfer eich anghenion chi ac sydd agosaf i'ch cartref.

Ystyr **sancsiynau** yw cosbau sy'n cael eu rhoi ichi gan yr awdurdod lleol os dydych chi ddim yn ymddwyn fel y dylech chi.

Ystyr **polisi** yw'r hyn mae Llywodraeth Cymru am i'r awdurdodau lleol ei wneud ar eich cyfer.

Ystyr cludiant **yn ôl disgresiwn** yw pwy mae'r awdurdodau lleol yn dewis rhoi cludiant iddyn nhw. Os dydych chi ddim yn byw yn ddigon pell o'r ysgol, maen nhw'n gallu dewis rhoi cludiant ichi ond does dim rhaid iddyn nhw wneud hynny dan y gyfraith.

Ystyr **Sancsiynau Troseddol** yw cosbau y gall yr heddlu eu rhoi os byddwch chi'n torri'r gyfraith.

Mae **Peryglon Cymdeithasol** yn gallu bod yn beryglon sy'n cael ei hachosi gan bobl ddieithr, bwlis, mygwyr, lladron, llofruddwyr neu herwgipwyr. Unrhyw le neu bobl sy'n gwneud ichi deimlo eich bod chi ddim yn ddiogel.

Ystyr **byw mewn dau** le yw dysgwyr sydd â rhieni neu ofalwyr sydd ddim yn byw gyda'i gilydd ond mewn cartrefi gwahanol.

Ystyr **hebrwng** yw bod rhywun yn mynd â phlentyn i'r ysgol. Un o'r rhieni sy'n gwneud hynny fel arfer ond gallai hefyd olygu rhywun sy'n cael ei ddewis gan yr awdurdod.

ISBN digidol ISBN 978 1 4734 2498 2
© Hawlfraint y Goron 2014
WG23011